



## Gwahodd teuluoedd bedydd adeg y Pasg

Mae'r Pasg yn amser gwych i wahodd teuluoedd bedydd yn ôl i'r eglwys. Gall aros am yr holl wyau Pasg siocled fod yn ormod bron iawn! Pan ddaw'r diwrnod mawr, mae yna rai ffyrdd da o helpu plant i ddeall pam eu bod nhw wedi derbyn wyau Pasg, ac egluro stori'r Pasg wrth fwynhau'r siocled hefyd.

### Stori Wy Pasg

Stori i unrhyw un sy'n ddigon hen i fwyta siocled, a ffordd wych o gysylltu wyau Pasg siocled â stori'r Pasg o'r Beibl. Cofiwch gynnwys rhai wyau di-lactos os ydych yn rhoi unrhyw siocled i blant er mwyn gallu cynnwys cymaint â phosibl.

*Eisteddwch i lawr gyda'ch gilydd a mwynhau tynnu'r ffoil oddi ar yr wy siocled gwag. Daliwch yr wy yn eich llaw.*

Roedd bedd Iesu'n debyg i'r wy hwn - gyda'r garreg fawr wedi rholio yn erbyn mynedfa'r bedd, byddai'r tu mewn yn dywyll ac yn gul. Mae'r tywyllwch hwn yn cynrychioli Gwener y Groglith, y diwrnod y bu'r Iesu farw.

Ond ar Sul y Pasg cyntaf hwnnw, daeth Iesu'n fyw eto, a chodi o'r bedd. Mae dydd Gwener y Groglith wedi'i chwalu am byth, ac mae bywyd newydd yn cael ei ryddhau.

*Ar y pwynt hwn, gallwch chwalu'r wy a dechrau bwyta'r darnau. Wrth i chi fwyta, daliwch ati i feddwl am y stori.*

Ond y drafferth yw, welodd neb hyn yn digwydd. Roedd y milwyr a oedd yn gwarchod y bedd wedi llewygu mewn ofn, ac wrth i Mair gyrraedd bedd Iesu, mae'n gweld ei fod yn wag. Mae'r atgyfodiad ei hun wedi digwydd yn breifat. Yr holl gyffro a'r llawenydd a neb yno i'w rannu...

Ar Sul y Pasg rydym yn canolbwyntio ar stori Mair. Yno yn yr ardd, mae'r atgyfodiad wedi digwydd, ond roedd hi wedi'i chaethiwo yn ei dydd Gwener y Groglith ei hun – roedd ei galar a'i thristwch yn ei chadw yn y tywyllwch.

### Stori arall yn ymwneud ag wy Pasg

*Os oes gennych chi wy siocled arall, tynnwch y papur o'i amgylch gyda'ch gilydd a'i ddal yn eich llaw.*

Yn union fel yr wy cyntaf, mae fel petai dydd Gwener y Groglith yn dal i ddigwydd. Roedd hi'n dal i deimlo fel dydd Gwener y Groglith i Mair.

Pan ddarllenwn ni stori Mair gallwn weld yr union eiliad y digwyddodd yr atgyfodiad iddi hi – pan mae Iesu'n galw ei henw ac mae hi'n ei adnabod. Yn sydyn, mae ei holl dristwch yn troi'n llawenydd. Mae dydd Gwener y Groglith Mair wedi mynd unwaith ac am byth, ac mae'r bywyd newydd yn cael ei ryddhau ynddi hi.

*Gallwch chwalu a bwyta'r ail wy nawr.*

Dros yr wythnosau nesaf, mae eglwysi ledled y byd yn darllen straeon am sut y gwnaeth ffrindiau Iesu ddarganfod ei fod yn fyw eto: trodd eu dydd Gwener y Groglith eu hunain yn Basg, i gyd mewn ffyrdd gwahanol.

*Os oes gennych chi domen o wyau Pasg, gallech ddefnyddio'r straeon hyn i'ch helpu chi i'w bwyta!*

- Roedd ffrindiau agosaf Iesu wedi'u dal yn nydd Gwener y Groglith gan fod arnyn nhw ofn, ond daeth Iesu atyn nhw a dweud: 'Tangnefedd i chwi', a diflannodd eu hofnau.
- Roedd dydd Gwener y Groglith Thomas i gyd yn ymwneud ag amheuaeth, ond trodd ei amheuaeth yn ffydd a hyder newydd pan welodd Iesu drosto'i hun.
- Roedd rhai o ffrindiau Iesu ar daith pan gyfarfu Iesu â nhw ar y ffordd, a'u helpu i ddeall beth oedd wedi digwydd; arhosodd i gael swper gyda nhw ac wrth iddo dorri'r bara i'w rannu, dyma nhw'n ei adnabod. Cafodd eu dryswch Gwener y Groglith ei droi'n adnabyddiaeth o'r Pasg.
- Pedr oedd ffrind gorau Iesu ond roedd yn gaeth yn nydd Gwener y Groglith ac yntau wedi bradychu Iesu ar yr union adeg pan oedd ei angen fwyaf. Daeth eiliad Pasg Pedr pan roddodd Iesu dri chyfle iddo i ddweud ei fod yn ei garu - 'A wyt ti'n fy ngharu i?' - i wneud iawn am y tair gwaith iddo droi ei gefn arno.
- Weithiau fe allwn ni gael ein dal yn nydd Gwener y Groglith hefyd – gallech ddefnyddio'r weddi hon (efallai wrth i chi fwyta mwy o siocled) i'ch helpu chi i fwynhau bywyd newydd y Pasg – neu ei gweddïo dros bobl y gwyddoch eu bod yn cael amser anodd ar hyn o bryd.

*Annwyl Iesu,  
Bydd gyda ni ar ddydd Gwener y Groglith pob un ohonom,  
ac arwain ni i fywyd newydd y Pasg.  
Amen.*